CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**26.6.20**
**10:00 am**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod ZOOM*

## *NODIADAU*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>Pres JAJ (Cadeirydd); DW;GW;TAJ;RJ;BJ<br>Ymddiheuriadau: DL; JOJ; DP; EO; (IW; AR)<br>Mynychu: SWR |
| 2 | **Datgan Diddordeb**<br>Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb. |
| 3 | **Cymeradwyo trefniadau amgen dros-dro oherwydd COVID 19**<br>Nododd y Clerc bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi na ddylid cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar hyn o bryd ac mai eu hargymhelliad yw cynnal cyfarfodydd rhithiol. Nodwyd hefyd bod a hawl bellach i rannu unrhyw bapurau dros e-bost am y cyfnod. Cynigiodd GW bod CC LLan yn mabwysiadau'r canllawiau yn ffurfiol ac eiliwyd gan DW - cytunwyd yn unfrydol. Atgoffwyd yr aelodau bod hawl i weithredu gan y Cadeirydd a'r Clerc mewn materion sydd angen sylw brys. Cytunodd y Clerc hefyd i gyflwyno adroddiadau diweddaru fel bo'n briodol.<br>Cytunwyd i roi ystyriaeth i gynnal cyfarfod mis Gorffennaf ym maes parcio'r Stesion, gyda'r nos, os bydd canllawiau (a thywydd) yn caniatáu. |
| 4 | **Diweddariad ers 19.3.20**<br>Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad uchod a gylchredwyd o flaen llaw. Nodwyd ei gynnwys a diolchwyd i'r Clerc a'r Cadeirydd am eu gwaith dros y 3 mis diwethaf.<br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at ymddiswyddiad Cyng. Eryl Williams o'r Cyngor gan ei fod wedi symud i fyw i Walchmai. Clerc i ysgrifennu llythyr o ddiolch ffurfiol ato ac i ofyn iddo a yw'n fodlon i barhau i roi cymorth i'r Clerc gyda'r gyllideb gyda chydnabyddiaeth |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | ariannol briodol i'w gytuno yn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd yn unfrydol i'r Clerc holi EW.<br><br>Dymunwyd yn dda i DW wedi iddo ddatgan na fydd yn dychwelyd i weithio i'r Siop Trin Gwallt lleol.<br><br>Cafwyd adroddiad gan BJ am weithgaredd y Grŵp Cymunedol yn Llan dros y cyfnod clo. Nodwyd y canlynol:<br><br>➢ Grŵp yn cynnig gwasanaeth siopa/casglu prescriptiwn/ cadw cyswllt<br>➢ Dim cymaint o alw yn Llan o'i gymharu ag ardaloedd eraill ar yr Ynys - hyn yn bosib ohewrydd natur glos y gymuned<br>➢ Wedi sicrhau arian grant o £1k i gynnal prosiect arddio gyda phlant yr Ysgol - dechrau mis Medi 2020<br>➢ Prosiect trefnu Te bach i bensiynwyr y pentref ar y gweill gyda chymorth Caffi Stesion. Gwasanaeth 'nôl ac anfon bydd hwn.<br>➢ Cytunwyd i ddefnyddio gweddill arian grant Hogia Llan os bydd angen.<br><br>Diolchwyd i BJ a'r holl wirfoddolwyr am eu gwaith caled. |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>Cyfeiriodd y Clerc at y Cyfrifon Blynyddol a gylchredwyd eisoes i'r aelodau. Nododd bod yr Archwiliwr Mewnol wedi eu cymeradwyo a bod ei adroddiad wedi ei rhannu eisoes hefyd. Derbyniwyd holl waith cyfrifo a'r Ffurflen Flynyddol am 2019-20 (TAJ/GW) a diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith. Bydd y Ffurflen Flynyddol a'r holl ddogfennau perthnasol yn cael eu cyflwyno i'r BDO trwy e-bost cyn 30 Mehefin 2020.<br><br>Aeth y Clerc trwy'r taliadau ers 19.3.20 ac fe'u cymeradwywyd fel â ganlyn:-<br>• Cyflog Clerc Ionawr/ Chwefror/ Mawrth & Costau Blynyddol arferol - £1109.20 & £450 = £1559.10<br>• HMRC Cyflog Clerc - £176.20<br>• MSI Alarms - £304.80<br>• Rhys Williams - torri llwybr £60 (derbyniwyd ad-daliad llawn am hwn gan CSYM)<br>• Dwr Cymru – Lawnt Fowlio £23.20 a Fynwent Gyhoeddus £13.78 = £36.98<br>• Nwy Prydain – letrig Lawnt Fowlio - £20.36<br>• Garry Lewis - trwsio tapiau Caffi - £180<br>• RPO Williams - draenio CPD £1068 (ad-daliad gan y Clwb Peldroed o £890)<br>• DP Welding – pyst Cae-aml bwrpas £660<br>• Banc Bwyd Covid 19 - rhodd £50 a £2.50 cost gweinyddu'r taliad = £52.20 - cytunwyd dros e-bost (Clerc wedi talu trwy gyfrif banc personol a chytundeb gyda'r Cadeirydd i gael ad-daliad priodol)<br>• Nwy Prydain Letrig Lawnt Fowlio - £10.39. Noder bod D/D wedi ei sefydlu bellach i hwn. |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | • Tarian Cymru - rhodd o £100 i helpu i gael masgiau ayyb i ddoctoriaid a nyrsys - cytunwyd dros e-bost<br>• Cost inc ar frys i'r Clerc brintio gwaith archwiliad - £64.99 (Clerc wedi talu trwy gyfrif banc personol a chytundeb gyda'r Cadeirydd i gael ad-daliad priodol sef siec am £164.99)<br>• Scottish Power – Goleuadau Dolig £35.52<br>• CSYM - rhent Glan Menai £34.74<br>• Arian o grant Grŵp Gwirfoddolwyr i dalu arian petrol i 4 unigolyn - £50 / £50 / £20 a £20 = £140<br>• Scottish Power Uned 1 - £42.09<br>• Alun Foulkes – ffi Archwiliad Mewnol - £100<br>• Mark Roberts Website Solutions – ail greu gwefan - £78.78<br><br>**Taliadau i'w cymeradwyo**<br><br>➢ Cyflog Clerc Ebrill/ Mai/ Mehefin - £1109.10<br>➢ Cwmni WIX - ail-sefydlu'r Wefan - cost £252.00 gyda disgownt am brynu ar y diwrnod o £126 - cyfanswm £151.20 yn cynnwys TAW (ad-daliad i'r Clerc)<br>➢ Pressure Cleaning Service – glanhau 'vents' y Caffi - £396<br>Cymeradwywyd talu yn unfrydol. |
| **6** | Unrhyw fater brys arall<br><br>Dim i law. |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383